

Rhagolwg trethi Cymreig, diweddariad Chwefror 2020

- 1.1 Yn ein *rhagolwg trethi Cymreig (WTO)* cychwynnol, gwnaethom gyflwyno rhagolygon trethi 5 mlynedd ynghyd â Chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Roedd y rhagolwg, a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr, yn ymdrin â chyfraddau treth incwm, treth trafodiadau tir (LTT) a threth gwarediadau tirlenwi (LDT) Cymru, yn ogystal â threthi cyfatebol Llywodraeth y DU sy'n ofynnol i gyfrifo addasiadau i'r grant bloc.¹
- 1.2 Roedd y rhagolygon hynny yn seiliedig ar ein rhagolygon economaidd a chyllidol ar gyfer y DU ym mis Mawrth 2019, yn ogystal â data rhwymedigaethau a derbyniadau newydd a gyhoeddwyd ers mis Mawrth.² Cyn ei Chyllideb derfynol ar 25 Chwefror, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn inni ddiweddarau ein rhagolygon trethi Cymreig i adlewyrchu'r wybodaeth a'r data alldro diweddaraf. Heb unrhyw ddata LDT chwarterol newydd ar gael pan paratowyd y rhagolygon, mae hyn yn cynnwys cyfraddau Cymru ac LTT yn unig. Ar gyfer y ddau, mae gennym ddau fis o ddata ychwanegol (Tachwedd a Rhagfyr). Maent yn dal i fod yn seiliedig ar ein rhagolygon economaidd a chyllidol ar gyfer y DU mis Mawrth 2019.³
- 1.3 Byddwn yn cyhoeddi rhagolygon trethi Cymreig newydd yn seiliedig ar ein rhagolygon economaidd a chyllidol diweddaraf ar gyfer y DU gyfan yn ein dogfen *Rhagolygon trethi a gwariant datganoledig* ar y cyd â Chyllideb Llywodraeth y DU a'n *Rhagolwg economaidd a chyllidol* nesaf ar 11 Mawrth.

Cyfraddau treth incwm Cymru

- 1.4 Dangosir ein rhagolwg wedi'i ddiweddarau ar gyfer cyfraddau Cymru yn Nhabl 1.1. Roedd ein rhagolwg ym mis Rhagfyr yn seiliedig ar dderbyniadau cynllun Talu Wrth Ennill (PAYE) y DU gyfan o saith mis cyntaf 2019-20, a oedd 2.3 y cant yn uwch o'u cymharu â'r un cyfnod yn 2018-19. Gyda naw mis o ddata derbyniadau ar gael bellach, mae'r ffigur hwnnw yn 1.9 y cant, sy'n esbonio'r diwygiad ar i lawr o £7 miliwn i'n rhagolwg trethi Cymreig ar gyfer 2019-20 ac yn bwydo ymlaen i ddiwygiadau tebyg i'r blynyddoedd i ddod.

¹ Manylir ar fethodoleg yr addasiadau i'r grant bloc yn *Y gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru*, Rhagfyr 2016. Nid yw'r OBR [Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol] yn ymwneud yn uniongyrchol â'r penderfyniadau gwariant na'r trafodiadau grant bloc hyn, ond mae'r setliadau gwariant yn tynnu ar ein rhagolygon trethi.

² Gweler ein *Rhagolwg economaidd a chyllidol* mis Mawrth 2019. Ar 16 Rhagfyr 2019 gwnaethom hefyd ailddatgan ein rhagolwg mis Mawrth 2019 i fod yn gyson â dosbarthiad ONS a newidiadau ystadegol eraill ers mis Mawrth. Ni wnaeth yr ailddatganiad hwn effeithio ar unrhyw linellau y rhagolwg sy'n berthnasol i'n rhagolwg trethi Cymreig.

³ Cynhyrchodd dadansoddwyr yn Llywodraeth Cymru ragolwg LTT wedi'i ddiweddarau ar 31 Ionawr 2020. Archwiliodd y Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol y rhain a'u cwblhau ar 6 Chwefror.

Tabl 1.1: Rhagolwg cyfraddau treth incwm Cymru wedi'i ddiweddaru, Chwefror 2020

	£ miliwn					
	Alldro	Rhagolwg				
		2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23
Rhagolwg Rhagfyr	2,053	2,089	2,206	2,286	2,368	2,456
Rhagolwg Chwefror	2,053	2,082	2,200	2,279	2,361	2,449
Newid	0	-7	-7	-7	-7	-7

Treth trafodiadau tir

- 1.5** Dangosir ein rhagolwg wedi'i ddiweddaru ar gyfer LTT yn Nhabl 1.2. Mae dau fis ychwanegol o ddata alldro LTT wedi cynyddu ein hamcangyfrifiad canol blwyddyn ar gyfer LTT fasnachol o £4 miliwn, sy'n gwthio drwy weddill y rhagolwg. Nid yw ein rhagolygon eiddo preswyl ac ychwanegol wedi newid fawr ddim ers mis Rhagfyr, ac mae'r diwygiadau iddynt wedi'u gwrthbwysu i raddau helaeth.
- 1.6** Mae ein rhagolwg LTT fasnachol 2019-20 wedi'i ddiweddaru yn cynnwys y rhwymedigaeth sy'n gysylltiedig â throsglwyddo Prif Linellau'r Cymoedd o Network Rail i Drafnidiaeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi'n hysbysu ei bod yn disgwyl i'r trosglwyddiad hwn ddigwydd tua diwedd mis Mawrth. Yn y nodyn eglurhaol a gyhoeddwyd ar y cyd â'i *Chyllideb atodol 2019-20* ar 4 Chwefror, nododd Llywodraeth Cymru fod "£33,819k ychwanegol wedi'i gynnwys i adlewyrchu'r rhwymedigaeth Treth Trafodiadau Tir mewn perthynas â phrynu Prif Linellau'r Cymoedd".⁴Rydym wedi defnyddio rhagdybiaethau Llywodraeth Cymru ar werth ac amseru'r trosglwyddiad fel sail y rhagolwg hwn, ond nodwn fod peth ansicrwydd yn parhau ynghylch y manylion penodol.

⁴ Llywodraeth Cymru, *Cyllideb Atodol 2019-20, Nodyn Eglurhaol*, Chwefror 2020.

Tabl 1.2: Rhagolwg LTT wedi'i ddiweddarau, Chwefror 2020

	£ miliwn					
	Alldro 2018-19	Rhagolwg				
		2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24
Cyfanswm LTT						
Rhagolwg Rhagfyr	228	226	245	268	294	322
Rhagolwg Chwefror	228	264	250	273	299	328
Newid	0	38	4	5	5	5
Preswyl (ac eithrio eiddo ychwanegol)						
Rhagolwg Rhagfyr	95	100	117	133	151	171
Rhagolwg Chwefror	95	102	118	134	153	173
Newid	0	1	1	2	2	2
Eiddo ychwanegol						
Rhagolwg Rhagfyr	60	59	62	66	71	76
Rhagolwg Chwefror	60	58	61	65	70	74
Newid	0	-1	-1	-1	-1	-1
Masnachol						
Rhagolwg Rhagfyr	72	66	66	69	72	75
Rhagolwg Chwefror	72	104	71	74	77	80
Newid	0	38	4	4	5	5
<i>gan gynnwys:</i>						
Alldro canol blwyddyn		4	4	5	5	5
Trosglwyddiad Prif Linellau'r Cymoedd		34	0	0	0	0

Treth gwarediadau tirlenwi

1.7 Dengys Tabl 1.3 y rhagolwg LDT a gyhoeddwyd gennym yn WTO fis Rhagfyr.

Tabl 1.3: Rhagolwg LDT, Rhagfyr 2019

	£ miliwn					
	Alldro 2018-19	Rhagolwg				
		2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24
Rhagolwg Rhagfyr	44	38	36	35	35	35
Rhagolwg Chwefror	44	38	36	35	35	35
Newid	0	0	0	0	0	0